O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 217(Cy. 29)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("Deddf 2004") ac maent yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae Rheoliadau 2005 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyfrifon ac archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae'n ofynnol i'w cyfrifon gael eu harchwilio yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2004.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 7 o Reoliadau 2005 drwy ddisodli'r cyfeiriad at awdurdodau heddlu gan gyfeiriad at gomisiynwyr heddlu a throsedd a phrif gwnstabliaid. Bydd y cyrff hyn yn ddarostyngedig i'r gofyniad i lunio datganiad o gyfrifon.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2013 ac maent yn cael effaith mewn perthynas â chyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2012-13.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 217(Cy. 29)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *6 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2013* |

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**).

Fel y mae'n ofynnol gan adran 39(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff hynny o gyfrifwyr yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Mawrth 2013.

(**1**) 2004 p.23. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**Diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7 (datganiad o gyfrifon) ym mharagraff (2)—

(a) yn lle is-baragraff (d) rhodder—

“(d) comisiynydd heddlu a throsedd;”;

(b) cyn is-baragraff (dd), mewnosoder—

“(da) prif gwnstabl a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(**2**);”.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

4 Chwefror 2013

(**1**) O.S. 2005/368 (Cy.34).
(**2**) 2011 p.13.